

# BYSIAU YSGOL
# SCHOOL TRANSPORT

monmouthshire
sir fynwy

# BYSIAU YSGOL
# SCHOOL TRANSPORT

# Cyngor Sir Fynwy

# Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol 2025-2026

## Dogfen Ymgynghori

Dyddiad Cyhoeddi: 12 Goffennaf 2024

Ymgynghoriad yn Cau: 23 Awst 2024

E-bost: H2Sconsultation@monmouthshire.gov.uk

Rhif Ffôn: 01633 644777

Gwefan: https://www.monmouthshire.gov.uk/home-to-school-transport-consultation-2/

Gellir darparu copïau caled o'r arolwg a'r dogfennau ategol trwy gysylltu â'r Tîm Comisiynu Cludiant Teithwyr drwy'r cyfeiriad e-bost neu rif ffôn uchod.

### Dogfen Ymgynghori Polisi Cludiant Cartref i'r Ysgol 25-26

#### Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal i wahodd adborth ar y newidiadau arfaethedig i'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol a fydd yn effeithio ar ddefnyddwyr cludiant o'r cartref i'r ysgol presennol ac yn y dyfodol.

#### Sut i ymateb

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 12 Gorffennaf 2024 ac yn gorffen am 12 hanner dydd ar 23 Awst 2024. Gallwch roi eich barn yn y ffyrdd canlynol:

Ar-lein: Ymgynghoriad Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol
E-bost: H2Sconsultation@monmouthshire.gov.uk
Neges: Tîm Comisiwn Cludiant Cartref i Ysgol, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Llanbadog Fawr, Sir Fynwy. NP15 1GA

# BYSIAU YSGOL
# SCHOOL TRANSPORT

*Cysylltwch â ni os ydych am i'r wybodaeth gael ei darparu mewn fformat arall.*

## Diogelu Data

Bydd gwybodaeth a ddarperir gennych wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniad gan y Cabinet yn y dyfodol ar newidiadau arfaethedig i'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

Bydd y cyngor yn cymryd pob rhagofal rhesymol i sicrhau cyfrinachedd ac i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu â gwasanaethau perthnasol at ddibenion datblygu polisi yn y dyfodol. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw yn unol â Pholisi Cadw Data'r cyngor.

Mae gennych nifer o hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Gallwch hefyd dynnu eich cydsyniad yn ôl a gofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael ar ein gwefan neu gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data.

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd yr ydym yn prosesu eich data personol, yna mae gennych yr opsiwn i wneud cwyn i'r Swyddog Diogelu Data a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r cyngor drwy e-bostio:

dataprotection@monmouthshire.gov.uk

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru**
2il Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH
**Rhif ffôn** 0330 414 6421
**E-bost:** wales@ico.org.uk

## Dogfennau Perthnasol

Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr Mehefin 2014

Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol 2024-25

# BYSIAU YSGOL
# SCHOOL TRANSPORT

## Pam rydym yn cynnig newidiadau i'r polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol?

Mae ein polisi cludiant presennol o'r cartref i'r ysgol yn fwy na'n rhwymedigaethau statudol. Oherwydd y pwysau ariannol sy'n ein hwynebu, mae angen i ni ystyried ei fforddiadwyedd wrth gydnabod effaith bosibl newidiadau ar deuluoedd.

Ar hyn o bryd, rydym yn darparu cludiant i 2,828 o fyfyrwyr i 54 sefydliad addysgol, gyda'r gost bresennol o gludo cyfwerth â £2,894 y dysgwr.  Mae'r cyngor yn gofyn am eich adborth ar newidiadau posibl i'n Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol i sefydlu model cludiant mwy cynaliadwy yn ariannol ar gyfer y dyfodol.

Mae Mesur Teithio i Ddysgwyr 2008 yn gosod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr cymwys.  Gall Awdurdodau Lleol hefyd ddarparu trefniadau cludiant ychwanegol, a elwir yn ddewisol. Mae angen i'r cyngor nawr ystyried a all barhau i fforddio darparu cludiant dewisol, neu a yw'n darparu dim ond yr hyn y mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol iddo ei ddarparu.

## Pa gludiant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r cyngor ei ddarparu?

Mae'r Mesur Teithio i Ddysgwyr yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Dysgwyr o oedran ysgol gorfodol (5-11 oed) sy'n mynychu ysgol gynradd a gynhelir sy'n byw dwy filltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf.
- Dysgwyr o oedran ysgol gorfodol (11-16 oed) sy'n mynychu ysgol uwchradd a gynhelir sy'n byw tair milltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf.
- Dysgwyr sy'n byw yn agosach na'r pellteroedd cymwys, a nodwyd nad oes ganddynt lwybr cerdded priodol o'u cartref i'w hysgol addas agosaf.
- Asesu a diwallu anghenion plant "sy'n derbyn gofal" yn ardal eu hawdurdod.
- Hyrwyddo mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.
- Hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy.

# BYSIAU YSGOL SCHOOL TRANSPORT

## Pa gludiant mae'r cyngor yn ei ddarparu yn ôl disgresiwn ar hyn o bryd?

Mae Polisi Cludiant 2024-25 yn darparu ar gyfer y trefniadau cludiant dewisol canlynol:

- Dysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol gynradd a gynhelir sy'n byw 1.5 milltir neu fwy o'u hysgol addas neu ddalgylch agosaf.
- Dysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol uwchradd a gynhelir sy'n byw 2 filltir neu fwy o'u hysgol addas neu ddalgylch agosaf.
- Dysgwyr 4 oed sy'n mynychu ysgol gynradd a gynhelir sy'n byw 1.5 milltir neu fwy o'u hysgol addas neu ddalgylch agosaf.
- Dysgwyr sy'n mynychu eu hysgol Gymraeg agosaf neu ddalgylch sy'n bodloni'r meini prawf pellter neu 1.5 milltir ar gyfer cynradd a 2 filltir ar gyfer ysgolion uwchradd.
- Dysgwyr sy'n mynychu eu hysgol ffydd agosaf neu ddalgylch sy'n bodloni'r meini prawf pellter o 1.5 milltir ar gyfer cynradd a 2 filltir ar gyfer ysgolion uwchradd.

## Cludiant Cynaliadwy

Mae'r cyngor wedi mabwysiadu Hierarchaeth Cludiant Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus. Yn ddiweddar, mae'r cyngor wedi tendro a chaffael ei holl wasanaethau bysiau cyhoeddus sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol ac wedi sicrhau bod amserlenni bysiau cyhoeddus wedi'u trefnu i alluogi dysgwyr uwchradd i deithio yn ôl ac ymlaen i ysgolion ar fysiau cyhoeddus.

Bydd y cyngor yn parhau i flaenoriaethu gwasanaethau bysiau cyhoeddus lle bynnag y bo modd i ddysgwyr uwchradd. Mae hyn yn lleihau'r angen am gludiant pwrpasol, gan ein helpu i leihau allyriadau a thagfeydd. Mae'r Rhwydwaith Teithio Llesol yn Sir Fynwy yn parhau i ehangu a byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion i annog pobl i ystyried cerdded a beicio.

## Y Broses Ymgynghori.

Cyn ystyried unrhyw newidiadau i'r polisi, mae'n hanfodol ein bod yn casglu adborth gan aelodau'r gymuned a rhanddeiliaid i roi eu sylwadau ar y cynigion. Mae'r ddogfen hon yn manylu ar y newidiadau arfaethedig ac yn esbonio sut y gallwch gyfrannu at yr ymgynghoriad.

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bydd yr adborth yn cael ei roi i Gabinet y cyngor i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus ar ein Polisi Cludiant ar gyfer 2025-26.

Bydd y Polisi Cludiant terfynol yn dod i rym ar 1 Medi 2025 a bydd yr holl newidiadau / unrhyw newidiadau yn effeithio ar ddefnyddwyr presennol a defnyddwyr y dyfodol o'r dyddiad hwnnw.

# BYSIAU YSGOL
# SCHOOL TRANSPORT

## Pwy all gymryd rhan yn yr ymgynghoriad?

Mae'r ymgynghoriad ar agor i unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan.  Fodd bynnag, byddwn yn cysylltu â rhieni a gwarcheidwaid yr holl ddefnyddwyr presennol o'r cartref i'r ysgol i roi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad.  Byddwn hefyd yn cysylltu â phob ysgol yn Sir Fynwy a'r sefydliadau addysgol eraill yr ydym yn darparu cludiant iddynt ar hyn o bryd.

## Sut ydw i'n rhoi fy adborth?

**Gellir gweld arolwg ar-lein yma.** Gellir darparu copïau papur o'r arolwg a fformatau hygyrch ar gais. E-bostiwch eich gofynion i H2Sconsultation@monmouthshire.gov.uk.

## Beth sy'n digwydd pan fydd y cyfnod ymgynghori yn cau?

Bydd ymatebion yr arolwg yn cael eu tynnu at ei gilydd mewn adroddiad, a fydd yn cael ei rannu gyda'r Cabinet er mwyn iddynt benderfynu ar ba ddewis, os o gwbl, fydd yn cael eu cynnwys yn y Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ar gyfer 2025-26.

Bydd y Polisi Cludiant y cytunwyd arno gan y Cabinet yn cael ei roi ar wefan y cyngor ar neu cyn 1 Hydref 2024 a bydd yn dod i rym ar 1 Medi 2025.

## Yr Opsiynau

### Dewis 1

**Tynnu'n ôl i'r pellter statudol o 2 filltir ar gyfer dysgwyr cynradd statudol oed sy'n mynychu eu hysgol addas neu ddalgylch agosaf.**

Os cytunir ar yr opsiwn hwn, bydd y cyngor yn rhoi'r gorau i ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i ddysgwyr sy'n mynychu'r ysgol gynradd sydd â llwybr cerdded priodol ar gael ac sy'n byw llai na 3 milltir o'u hysgol addas neu ddalgylch agosaf. Bydd hyn yn berthnasol i'r rhai sy'n derbyn cludiant am ddim ar hyn o bryd ac unrhyw ymgeiswyr yn y dyfodol.

### Dewis 2

**Tynnu'n ôl i'r pellter statudol o 3 milltir ar gyfer dysgwyr uwchradd oedran statudol sy'n mynychu eu hysgol addas neu ddalgylch agosaf.**

Os cytunir ar yr opsiwn hwn, bydd y cyngor yn rhoi'r gorau i ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i ddysgwyr **11-16 oed** sydd â llwybr cerdded priodol ar gael ac sy'n byw llai na 3 milltir o'u hysgol addas neu ddalgylch agosaf. Bydd hyn yn berthnasol i'r rhai sy'n derbyn cludiant am ddim ar hyn o bryd ac unrhyw ymgeiswyr yn y dyfodol.

### Dewis 3

**Lle nad yw'r cyngor yn gallu sicrhau gweithredwr allanol fforddiadwy, neu os mai hwn yw'r opsiwn ariannol gorau, bydd rhieni/gwarcheidwaid yn cael cynnig cyllideb cludiant personol i gludo eu plant i'r ysgol ac oddi yno. Bydd yr opsiwn hwn yn berthnasol i bob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr ADY.**

Bydd yr opsiwn hwn yn galluogi'r cyngor i ddarparu cyllideb cludiant personol yn hytrach na chludiant pwrpasol o'r cartref i'r ysgol lle mae rhieni neu warcheidwaid yn cytuno i gludo eu plant. Bydd y cyngor yn parhau i ystyried amgylchiadau unigol y dysgwr, gan gynnwys unrhyw anableddau, cyn gweithredu cyllideb cludiant personol.

Mae wedi dod yn fwyfwy heriol dod o hyd i gerbydau i ddiwallu anghenion cymhleth rhai cyflyrau meddygol neu ddarparu cludiant am bris rhesymol ar gyfer ardaloedd mwy gwledig gydag un neu ddau o deithwyr.

Pe bai'r opsiwn hwn yn cael ei weithredu, byddai rhieni/gwarcheidwaid yn cael cynnig 45c y filltir ar gyfer y daith i'r ysgol ac oddi yno. Os byddant yn cludo eu plant eu hunain (yn hytrach na thalu rhywun arall i'w cludo) byddant hefyd yn cael £10/yr awr am y daith yn ôl fel yr aseswyd gan y Tîm Comisiynu.Byddai unrhyw oblygiadau treth bersonol yn gyfrifoldeb y rhieni/gwarcheidwaid.

BYSIAU YSGOL
SCHOOL TRANSPORT

## Crynodeb o'r Opsiynau

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu effaith bosibl yr opsiynau os caiff ei gymeradwyo.

| Pwy fydd yn cael eu heffeithio | Trefniadau presennol | Trefniant posib |
|---|---|---|
| Dysgwyr 4-11 oed (Ysgol Gynradd) | Mae cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gael os ydynt yn mynychu eu hysgol gynradd addas neu ddalgylch agosaf ac yn byw 1.5 milltir neu fwy o'u hysgol, neu os nad oes ganddynt fynediad at lwybr cerdded pridodol. | Darperir cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer dysgwyr sy'n byw 2 filltir neu fwy i ffwrdd o'u hysgol addas neu ddalgylch agosaf neu nad oes ganddynt fynediad at lwybr cerdded pridodol. |
| Dysgwyr 11-16 oed (Ysgol Uwchradd) | Mae cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol os ydynt yn mynychu eu hysgol addas neu ddalgylch agosaf ac yn byw 2 filltir neu fwy o'u hysgol neu os nad oes ganddynt fynediad at lwybr cerdded pridodol. | Darperir cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer dysgwyr sy'n byw 3 milltir neu fwy i ffwrdd o'u hysgol addas neu ddalgylch agosaf neu nad oes ganddynt fynediad at lwybr cerdded pridodol. |
| Cyllidebau Cludiant Personol | Mae'r rhain yn drefniadau dewisol y cytunwyd arnynt gyda rhieni dan amgylchiadau cyfyngedig. | Os yw'n ariannol ddarbodus neu na ellir darparu cludiant oherwydd gofynion cerbydau arbenigol neu ddiffyg tendrau, cynigir CCP i'r rhieni neu'r gwarcheidwaid. Pe bai'r rhieni'n gwrthod, bydd y cyngor yn parhau i ddarparu cludiant. |

# BYSIAU YSGOL
# SCHOOL TRANSPORT

**Effaith bosibl yr opsiynau ar ddefnyddwyr presennol cludiant o'r cartref i'r ysgol**

| Opsiwn | Nifer y defnyddwyr presennol | Nifer y defnyddwyr presennol yr effeithir arnynt gan yr opsiynau | Arbedion ariannol posibl | Mwy o allyriadau os bydd pob dysgwr sy'n colli trafnidiaeth yn teithio mewn car preifat | Mwy o allyriadau ar gyfer teithiau rhwng 1.75 a 2 filltir ar gyfer addysg gynradd a 2.5 a 3 milltir ar gyfer addysg uwchradd |
|---|---|---|---|---|---|
| Tynnu'n ôl i'r pellter statudol o 2 filltir ar gyfer dysgwyr cynradd gorfodol | 468 Prif ffrwd<br>294 Ffydd<br>116 Cyfrwng Cymraeg | 70 Prif ffrwd<br>53 Ffydd<br>10 Cyfrwng Cymraeg | 299,000 | 33.06 tunnell | 11.11 tunnell |
| Tynnu'n ôl i'r pellter statudol o 3 milltir ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd gorfodol | 1,487 Prif ffrwd<br>112 Ffydd<br>161 Cyfrwng Cymraeg | 167 Prif ffrwd<br>0 Ffydd<br>0 Cyfrwng Cymraeg | 365,000 | 60.75 tunnell | 16.16 tunnell |

Nodwch: Mae'r tabl uchod yn dangos y senario waethaf ar gyfer cynyddu allyriadau carbon. Cyfrifwyd Colofn 5 ar y sail y bydd pawb sy'n colli cludiant o'r cartref i'r ysgol yn teithio i'r ysgol mewn car preifat. Mae Colofn 6 yn tybio y bydd y rhai sy'n byw llai na 1.75 milltir o'u hysgol gynradd a llai na 2.5 milltir o'u hysgol uwchradd yn cerdded.